


Porthladdoedd y dyfodol: Gweledigaeth Cymru

Sut y gall porthladdoedd helpu i gyflawni trawsnewidiad Cymru



Mae gan bum porthladd ABP yn Ne Cymru orffennol chwyldroadol. Wrth fasnachu'r mwynau, ynni, cemegion a syniadau a geisir gan economi sy'n globaleiddio, mae porthladdoedd yn Ne Cymru wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o greu'r byd diwydiannol modern.

A nawr, wrth inni edrych i'r dyfodol, gallwn weld bod gan ein porthladdoedd yng Nghymru ddyfodol chwyldroadol hefyd.

Credwn y byddant yn chwarae rhan ganolog yn y camau mawr y mae angen i Gymru eu gwneud tuag at economi sydd wedi'i ddatgarboneiddio a'i ddigideiddio'n llawn dros y deng mlynedd ar hugain nesaf.


Ein hamcan yw sicrhau bod y dyfodol yn gweithio i Gymru – sy'n golygu bod yn rhaid i ni ddeall y dyfodol hwnnw, ei lunio, a buddsoddi ynddo. Mae'r materion yn gymhleth: yr unig ffordd drwy'r cymhlethdod hwnnw yw dychmygu byd sydd wedi newid,

deallei gyfleoedd, a chanolbwyntio ar y canlyniadau sydd eu hangen arnom. Ni allwn wneud rhagfynegiadau cadarn, ond gallwn fraslunio'r amlinelliad o'r hyn y mae angen ei wneud, a sut y gallai dull newydd o wireddu potensial enfawr lleoliadau porthladdoedd strategol Cymru adeiladu sylfeini cylch newydd o arloesi a ffyniant.


Mae angen gwneud yn fawr o amser. Mae arnom angen newid cyflymach, o fewn ein busnes ein hunain, a rhwydweithiau llywodraethu mewnol. Mae ein hawgrymiadau yma yn gweithio o fewn y fframwaith polisi a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ac yn awr mae angen i ni symud yn gyflym i wneud cynnydd gwirioneddol ar lawr gwlad – yn enwedig o gofio bod ein cymdogion â ffocws a galluog yn Sbaen, Portiwgal, Iwerddon a Ffrainc wedi nodi rhai o'r cyfleoedd a drafodwn yma, ac yn cefnogi nhw gyda buddsoddiad yr UE ar hyn o bryd.

Rydym yn disgrifio rhai newidiadau mawr yma. Nid materion yn ymwneud â'r diwydiant porthladdoedd yn unig yw'r rhain: maent yn rhan o her gymdeithasol ehangach. Bydd angen gwaith tîm ar ymateb cydlynol ar draws ein rhanddeiliaid, y byd academaidd, cwsmeriaid a chymunedau.

Rydym am fod yn rhan o'r tîm hwnnw, ac mae gennym y strwythur, yr arbenigedd a pherchnogaeth i wneud cyfraniad gwirioneddol. Yn ABP, rydym wedi darparu gwasanaeth hanfodol ers tro. Rydym nawr hefyd yn mynd i fod yn bartner hanfodol wrth greu'r twf, yr arloesedd a'r miloedd o swyddi newydd, medrus y mae pawb yng Nghymru am eu gweld.



Andrew Harston,
Cyfarwyddwr Rhanbarthol,
ABP Cymru a Phorthladdoedd Môr Byr



Porthladdoedd a'r dyfodol

Yn ABP, rydym wedi bod yn meddwl am y dyfodol. Mae'n amlwg bod y ddau neu dri degawd nesaf yn mynd i weld newidiadau strwythurol dramatig yn yr economi wrth iddo ddatgarboneiddio a digideiddio. Mae cyflymder y newid hwn yn debygol o gyflymu: bydd cylch twf yn cael ei chreu wrth i arloesedd technolegol ac economïau mawr yrru gostyngiadau mewn costau, sy'n gyrru rhagor o economïau ar raddfa. Bydd y newid hwn ar raddfa gyflym ac eang; bydd yn amharu ar ffyrdd sefydledig o weithio, gan fynnu rhai newydd – gan greu cyfleoedd mawr ar gyfer cwmnïau a rhanddeiliaid sy'n barod i wneud y newidiadau angenrheidiol.

Mae ABP yn cysylltu Cymru â'r economi fyd-eang wrth i ni gyflawni ein hymrwymiad i Gadw Prydain yn Masnachu. Ni fydd hynny'n newid.

Ond gwelwn rôl sy'n datblygu ar gyfer porthladdoedd De Cymru ABP yn y dyfodol. Bydd ein porthladdoedd – sydd wedi'u lleoli wrth ymyl dwy ran o dair o boblogaeth Cymru – yn asedau hynod bwysig o ran helpu Cymru i wneud yr adliniadau strategol a fynir gan ddatgarboneiddio a digideiddio, a byddant yn chwarae rhan bendant yn y trawsnewidiad economaidd sydd i ddod yng Nghymru.

Gwyddom mai'r unig ffordd o ffynnu yn y dyfodol yw tyfu ein gallu i wneud pethau newydd mewn ffyrdd newydd. A rhaid i ni bartneru'r gallu hwn i arloesi gyda'r gallu i gynllunio a gweithredu newid yn gyflym.

Rydym wedi trefnu'r papur hwn o amgylch pedair 'cenhadaeth' sy'n canolbwyntio ar y porthladd.

Maent yn nodi'r datblygiadau arloesol a fydd, yn ein barn ni, yn sicrhau bod porthladdoedd De Cymru yn cyflawni eu heffaith bosibl ar draws y system, ac yn nodi tasgau sy'n canolbwyntio ar amser a allai dorri drwy seilos sefydliadol ac ad-drefnu'r berthynas rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Ni all porthladdoedd wneud popeth – ond os gweithiwn gyda'n gilydd, gall porthladdoedd helpu Cymru i greu swyddi medrus, ffyniant cynyddol ac ansawdd uwch o fywyd, i gyd mewn hinsawdd ddiogel. Mae angen inni benderfynu ar y canlyniadau yr ydym am eu cael yn y dyfodol, a gweithio tuag atynt.

Datgarboneiddio cynhyrchu ynni

Mae angen i Gymru leoli ei hun ar gyfer chwyldro technolegol yn y ffordd y caiff ynni ei greu, ei ddsbarthu a'i ddefnyddio. Mae'r farchnad newydd hon yn creu cyfle trawsnewidiol i Gymru - gan greu diwydiant strategol cynhyrchiant uchel, a chreu miloedd o swyddi medrus a chyfleoedd allforio newydd. Rhaid iddo barhau i fod yn flaenoriaeth strategol bwysig i lunwyr polisiau yng Nghymru a thu hwnt.



Cyd-greu galluoedd FLOW o'r radd flaenaf yng Nghymru.

Mae gan Bort Talbot a Dinas-ranbarth ehangach Bae Abertawe yr hyn sydd ei angen i fod yn ganolfan ar gyfer Gwynt ar y Môr Symudol (FLOW) sy'n cynnwys gwasanaeth sylfaen symudol, gweithgynhyrchu cyn-ymgynnull tyrbinau a gweithgynhyrchu system angori erbyn diwedd y 2020au.

Cynnig unigryw Port Talbot yw ei gyd-leoliad o ddŵr dwfn, banc tir llwyd, capasiti dur a gweithgynhyrchu, gallu'r rheilffyrdd, a marchnad lafur leol fedrus.

Byddai arbenigeddau Port Talbot yn gweithio mewn partneriaeth â chadwyn gyflenwi ehangach yn Abertawe, tra bod Aberdaugleddau a Doc Penfro wedi'u lleoli'n berffaith ar gyfer y busnes gweithrediadau a chynnal a chadw y bydd FLOW yn eu creu.

Mae hwn yn gyfle enfawr, ond mae arnom angen buddsoddiad mawr mewn cyfleusterau cei a thir newydd. Mae profiad ABP yn Green Port Hull yn dangos i ni sut y gallai hyn ddigwydd, ac efallai y bydd angen i'r Llywodraeth fod yn 'fuddsoddi y dewis cyntaf': creu momentwm lle na all y sector preifat, a rhannu gwobrau buddsoddiad cynnar.


Mae angen inni drefnu. Mae gwaith partneriaeth da eisoes ar y gweill, ond mae angen inni ddatblygu tasglu lefel uwch i ysgogi'r gwaith o gydlynu arian, polisi a pheirianeg ar draws Bae Abertawe a thu hwnt, gan dorri drwy seilos sefydliadol. Mae Ystâd y Goron wedi cyhoeddi ei fod yn dechrau ar y gwaith o ddarparu cyfle prydlesu newydd ar gyfer prosiectau gwynt ar raddfa fasnachol gynnar yn y Môr Celtaidd, a bydd angen cyd-lunio'r biblinell datblygu diwydiant sy'n cyfiawnhau buddsoddiad mawr.

Mae datblygu porthladdoedd yn gymhleth ac yn cymryd llawer o amser. Mae angen inni ddechrau cynllunio nawr, neu mae perygl i Gymru gael ei gadael ar ôl yn ei marchnad ei hun.

Mae'r UE eisoes yn ariannu prosiectau FLOW yn Ffrainc ac ymchwil a datblygu FLOW yn Iwerddon, tra bod sylfeini arnawf ar gyfer prosiectau'r DU yn cael eu cynhyrchu a'u casglu mewn gwledydd Ewropeaidd eraill gan gynnwys Sbaen a'r Iseldiroedd. Ond mae gan Gymru amser o hyd i ddal i fyny, ac mae'n cael cyfle i greu diwydiant cynaliadwy cwbl newydd gyda photensial allforio enfawr.

'Mae mantais symudwr gyntaf gyda FLOW: bydd llwyddiant yn mynd i'r rhai sy'n gallu buddsoddi'n ddamcaniaethol i sefydlu arweinydd. Gall porthladdoedd Ewropeaidd sy'n eiddo i'r wladwriaeth wneud hynny, ond mae porthladdoedd y DU yn ei chael hi'n anodd. Mae angen i hynny newid. Y symudwr cyntaf fydd yn berchen ar y clwstwr, gan ddod â safle amlwg yn y diwydiant.

Chris Willow,
Pennaeth datblygiad gwynt ar y môr symudol, RWE



Cyd-greu ynni di-garbon o ffynonellau llanw ac ar y porthladd.


Mae natur wedi rhoi cyfle enfawr i Dde Cymru: mae amrediad llanw De Cymru yn golygu ei fod yn un o'r lleoedd gorau yn y byd i gynhyrchu pŵer o ynni adnewyddadwy morol. Byddai rhwydwaith o forlynnoedd ar draws de Cymru yn cael effaith economaidd radical mewn byd datgarboneiddio - yn Abertawe, er enghraifft, byddai'r lagŵn yn trawsnewid y ddinas, gan greu parth gwerth cwbl newydd a fyddai'n atgyfnerthu adfywiad canol dinas SA1 a rhoi mantais gystadleuol i'r ddinas fel lleoliad diwydiannol di-garbon. Byddai Abertawe'n beilot ar gyfer morlyn mwy fyth sy'n pweru Caerdydd.

Bydd porthladdoedd yn ganolog wrth adeiladu a gweithredu'r rhwydwaith hwn, ac yn darparu'r lle hanfodol i lanio'r buddsoddiadau i lawr yr afon a ddenodd ynni di-garbon y morlynnoedd.

Mae Cymru eisoes yn mabwysiadu dull arloesol yma: rydym yn llwyr cefnogi Her Morlynnoedd Llanw Llywodraeth Cymru, ac yn credu y gall Cymru ddefnyddio'r dull hwn i ailweithio syniadau sy'n bodoli eisoes a thorri'r bwlch ariannu.

Bydd angen cefnogaeth i'r syniadau sy'n deillio o hynny gydag ymrwymiad difrifol. Unwaith y bydd Her Morlyn Llanw wedi'i chwblhau, credwn fod angen tasglu cyflawni â ffocws ac un meddwl.

Rydym yn barod i ymuno â'r ymdrech honno, a byddwn hefyd yn ceisio ategu ynni'r llanw gyda datblygiad pellach o adnoddau ynni gwynt a solar ar y porthladd, gan helpu i bweru dadeni diwydiannol ehangach a fydd yn creu miloedd o swyddi medrus.



Datgarboneiddio'r diwydiant gweithgynhyrchu


Bydd cyrraedd sero net yn mynnu newidiadau sylfaenol yn y ffordd y mae diwydiant gweithgynhyrchu De Cymru yn gweithio. O ddiwydiannau sylfaenol dur a chemegau, i sectorau gweithgynhyrchu eraill, bydd porthladdoedd De Cymru yn anhepgor o ran cael ynni i safleoedd gweithgynhyrchu, allyriadau allan i bwyntiau dal a storio a darparu lle i dyfu.



Cyd-greu Gwaith Dur Port Talbot sydd wedi'i ddatgarboneiddio.

Mae newid yn dod i gyfleusterau ABP ym Mhort Talbot. Maent wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â chynhyrchu dur ar safle Tata, gan ddod â phorthiant sylfaenol mwyn haearn, golosg a glo i mewn.

Ond mae angen adnewyddu cyfleusterau Tata, ac mae'n amlwg y gallai cyfleusterau porthladd ABP fod yn rhan fawr o'r ateb. Bydd cludo drwy borthladdoedd yn hollbwysig: rydym yn edrych ar rôl newydd i borthladdoedd sy'n dod â hydrogen i mewn, neu cymryd CO₂ ar gyfer dal a storio mewn meysydd nwy segur, gan greu'r cyfle i neidio i dechnolegau datgarboneiddio newydd a fydd yn creu cyfleuster modern, sy'n gystadleuol yn fyd-eang ac yn ddi-garbon.




Mae Tata yn gweithio drwy'r opsiynau nawr. Gyda Chlwstwr Diwydiannol De Cymru (SWIC), rydym yn awyddus i weithio ochr yn ochr â'r holl randdeiliaid i gael y pecyn cywir ar gyfer De Cymru, gan fabwysiadu dull newydd o ddatblygu polisi Freeports i ddatblygu arloesedd.

Wrth i'r ffordd ymlaen ddod yn gliriach – fel y bydd dros y ddwy flynedd nesaf – bydd angen i ni weld datblygiad a gweithrediad polisi cyflym iawn ar lefel Cymru a'r DU. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i baratoi.

'Mae datgarboneiddio yn enfawr. Mae'n ddigynsail a dyw pobl ddim yn sylweddoli pa mor fawr ydyw. Ond nid yw hynny'n golygu ei fod yn ddrwg i gyd'

Yr Athro Cameron Hepburn, Cyfarwyddwr, Prifysgol Rhydychen



Cyd-greu cyfleusterau gweithgynhyrchu carbon isel sy'n canolbwyntio ar borthladdoedd.

Mae porthladdoedd bob amser wedi bod yn safleoedd gweithgynhyrchu gwyb, oherwydd gallant gyfleoli agosrwydd at lafur medrus gyda chysylltiadau ffyrdd, rheilffyrdd a môr arbennig – gan greu manteision cost ac effeithlonrwydd gwirioneddol.


Bydd y manteision hyn yn cael eu cynyddu wrth i drethi carbon gael eu gweithredu, gan wneud porthladdoedd De Cymru hyd yn oed yn well lleoliadau ar gyfer cylch newydd o arloesedd gweithgynhyrchu a fydd yn dwyn ynghyd cadwyn gyflenwi wedi'i datgarboneiddio a'i digideiddio gydag ailgarboniad, argraffu 3D, a micro-weithgynhyrchu.

Mae rhywfaint o'r dyfodol hwn eisoes yma. Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i sicrhau buddsoddiadau newydd, gyda llwyddiannau diweddar o ran creu swyddi gweithgynhyrchu newydd yng Nghasnewydd. Rydym hefyd yn edrych ar gyfleoedd newydd cyffrous o amgylch gweithgynhyrchu i gefnogi'r diwydiant gwynt ar y môr.

Gallai porthladdoedd sydd â chysylltiadau â seilwaith dal a chasglu a storio carbon ar raddfa fawr fod â mantais ychwanegol: byddant yn dod yn lleoliadau diwydiannol strategol. Bydd agosrwydd cyfleusterau casglu carbon yn denu prosesau diwydiannol eraill – fel cemegion, gweithgynhyrchu sment a chynhyrchu hydrogen glas – sy'n cynhyrchu lefelau uchel o allyriadau CO2 ac angen cysylltiadau cost-effeithiol â chyfleusterau dal a storio. Bydd y manteision hynny, yn eu tro, yn denu diwydiannau sy'n defnyddio CO2 fel porthiant ar gyfer prosesau eraill, gan atgyfnerthu manteision strategol yr ardal ymhellach.

Mae Port Talbot mewn sefyllfa unigryw i fod yn gyntaf i brofi'r manteision hyn. Dros amser, rydym yn disgwyl gweld datblygu rôl debyg yn ein lleoliadau porthladd eraill – fel yng Nghasnewydd, Caerdydd neu Borthladd y Barri, sy'n gyfagos i waith silicôn Dow Chemicals. Ac mae gan bob un o'n porthladdoedd dir datblygu sy'n addas ar gyfer creu cenhedlaeth newydd o ddiwydiannau.

Rydym yn cyflymu ein gwaith o ran gweithgynhyrchu sy'n canolbwyntio ar borthladdoedd, ac rydym am weithio gyda phartneriaid i'w ddatblygu ymhellach. Bydd angen dull polisi hynod soffistigedig a chreadigol i gasglu'r manteision strategol posibl y mae datgarboneiddio yn eu creu: bydd angen i nifer eango actorion gydweithio, ar draws ystod o ddiwydiannau a safleoedd. Yn ABP, rydym yn awyddus i chwarae rhan fawr o'r tîm hwnnw, gan angori twf newydd yn Ne Cymru.



Datgarboneiddio'r diwydiant logisteg

Mae porthladdoedd De Cymru yn debygol o chwarae rhan newydd fwyfwy mewn logisteg leol. Bydd yr enillion effeithlonrwydd sy'n cyd-fynd â'r 'rhyngrwyd pethau' yn lleihau costau logisteg, ac yn ysgogi'r galw ymhellach, gan greu twf cyflymach mewn gweithgarwch.


Gorau po gyntaf y bydd y newid hwn yn digwydd, gorau po gyntaf y cawn y manteision cynhyrchiant a'r arbedion carbon sydd eu hangen ar Gymru.



Cyd-greu arbedion effeithlonrwydd logisteg newydd.

Mae'r diwydiant logisteg yn gobeithio arloesi, ac mae gan borthladdoedd De Cymru gynni unigryw. Gwelwn ymddangosiad pentrefi cludo nwyddau di-garbon ar ein safleoedd porthladd yn Ne Cymru, wedi'u gyrru gan dri mantais strategol. Y cyntaf yw'r cysylltedd rhwng dulliau trafnidiaeth. Yr ail yw agosrwydd y porthladdoedd i ganolfannau poblogaeth, a'r cyflenwad o lafur a chwsmeriaid y maent yn eu cynhyrchu. A'r trydydd yw gallu'r porthladdoedd i ddatgarboneiddio'r 'filltir olaf': bydd cysylltiadau ynni capasiti uchel yn nodwedd hanfodol, gan ganiatáu i gannoedd o gerbydau cyflenwi ailwefru, sy'n debygol o gael eu cydbwysu gan gyfleusterau storio ynni sy'n datrys cyfnodau prysur iawn mewn galw am ynni. Bydd cytundebau gwifrau preifat – sy'n caniatáu mynediad i bŵer gwynt a solar a gynhyrchir gan borthladdoedd ar gyfraddau is na'r grid – yn creu manteision effeithlonrwydd a datgarboneiddio pellach. Efallai y bydd angen cynhyrchu hydrogen ar y safle hefyd er mwyn rhoi tanwydd i gerbydau nwyddau trwm, sydd i weld yn debygol o redeg ar hydrogen yn hytrach na batris.

Daw'r buddsoddiad a fydd yn creu'r gyflenwi ddatgarboneiddio (ac yn fwy effeithlon yn ddramatig) o'r sector preifat. Ond bydd cynnwys y sector cyhoeddus yn y newid hwn yn hanfodol, yn enwedig drwy'r system gynllunio, a gobeithiwn weithio gyda'r sector cyhoeddus i greu amgylchedd polisi cefnogol i ganiatáu'r ail-ddilysu hwn o dir porthladd tuag at farchnadoedd logisteg newydd.



Creu amgylcheddau twf ar gyfer cymunedau, busnesau ac ecosystemau

Mae ein porthladdoedd yn Abertawe, Caerdydd a'r Barri wedi gweld newidiadau radical dros y tri degawd diwethaf: ardaloedd diwydiannol wedi'u hail-eni fel cymunedau newydd llwyddiannus, gan ddefnyddio perthynas arloesol rhwng ABP a'r Llywodraeth. Dros y blynyddoedd nesaf, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i adolygu a oes lle i gylch newydd o adfywio diwydiannol, logisteg ac adfywio dan arweiniad preswyl ym mhorthladdoedd De Cymru, ochr yn ochr â chreu cyfleoedd newydd ar gyfer amgylcheddau naturiol bioamrywiol.



Cyd-greu cyfleoedd ar gyfer amgylcheddau twf newydd.



Dros y blynyddoedd nesaf, byddwn yn ystyried y cylch nesaf o newid yn ein porthladdoedd. Mae defnydd nad yw'n gysylltiedig i borthladdoedd yn bosibl mewn rhai lleoliadau, ac mae gennym dir ar gael yn ein porthladdoedd i angori buddsoddiadau newydd yn ein cymunedau. Yn ogystal â defnyddiau diwydiannol a logisteg a grybwyllir uchod, mae defnydd preswyl hefyd yn bosibl. Fodd bynnag, ni ddylid rhuthro penderfyniadau newid defnydd: rhaid inni fod yn siŵr bod unrhyw ddefnyddiau newydd yn fwy gwerthfawr na seilwaith porthladdoedd. Byddai newid angen cytundeb cyffredinol ein rhanddeiliaid, ein cyfranddalwyr a'n cwsmeriaid cyn y gallai fynd yn ei flaen.

Os byddwn yn bwrw ymlaen â defnyddiau newydd yn ein porthladdoedd, bydd gwneud lleoedd o ansawdd wrth ei wraidd.

Datblygu porthladdoedd yn Copenhagen, Rotterdam a dinas Malmo yn Sweden fyddai ein meincnodau dylunio, ac mae'r enghreifftiau hynny – ynghyd â phrofiad hanesyddol o Gaerdydd ac Abertawe - yn awgrymu y byddai angen integreiddio dull newydd yn briodol â chynlluniau twf trefol ynghyd â chymorth polisi'r sector cyhoeddus, gan gynnwys cyd-fentrau a cherbydau cyflenwi newydd o bosibl.


Yn gyffredinol, byddwn yn defnyddio dull strategol o sicrhau cynnydd net amgylcheddol a sicrhau cynefinoedd hirdymor. Pan fyddwn yn gwneud newid, byddwn yn cynllunio ar gyfer datblygu cynaliadwy go iawn – gan chwarae rhan bwysig mewn lleihau carbon ochr yn ochr â bioamrywiaeth a manteision amwynder.

Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i brofi cysyniadau ac i feddwl am hyfywedd newid.



Beth i'w wneud nawr

Yn ABP, gwyddom fod arloesi'n ganolog i dwf. Ond nid yw'r arloesi sydd ei angen arnom yn ymwneud â newidiadau mewn technoleg a marchnadoedd yn unig. Yn hytrach, mae'n ymwneud ag arferion busnes, meddylfryd, a'r ffordd y mae'r sectorau cyhoeddus a phreifat yn gweithio gyda ei gilydd. Mae ABP yn bwriadu gwneud rhai buddsoddiadau mawr yng Nghymru, ond ni allwn eu gwneud mewn gwactod: gall newid effeithiol ond ddigwydd mewn amgylchedd polisi cefnogol y gellir ei ddarparu mewn gwirionedd a chyswllt agos â'r Llywodraeth ar bob lefel, i arloesi 'torfol' drwy ddefnyddio ymyrraeth y Llywodraeth i gynyddu buddsoddiad y sector preifat.



O ran gweithredu arloesedd, gwyddom nad oes gan ABP yr holl atebion, a bydd eraill yn gweld pethau na allwn ni. Dyna pam rydym yn awyddus i weithio gyda'n cwsmeriaid, rhanddeiliaid, y byd academiaidd, cymunedau lleol a buddsoddwyr i ddychmygu ac yna gweithredu'r datblygiadau arloesol sydd eu hangen arnom i ffynnu yn y tymor hir. Mae rhai o'r perthnasoedd a'r polisïau sydd eu hangen eisoes ar waith, ond hoffem eu datblygu ymhellach, i

- **fapio gweledigaeth ymarferol, ar y cyd** o'r trawsnewid ym mhorthladdoedd De Cymru, sydd, yn ein barn ni, yn ddymunol, gan ein galluogi i gysylltu heriau'r dyfodol ag atebion clir;
- **defnyddio'r weledigaeth honno i ddatblygu cynllun cynhwysfawr, gan gynnwys 'cenadaethau' clir sy'n seiliedig ar amser** sy'n rhannu risgiau a gwobrau rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat – efallai ar hyd y llinellau a awgrymir uchod – i greu strategaeth gydgyssylltiedig;


- **cael pethau i ddiwydd ar lawr gwlad drwy greu dull 'tasglu' o weithredu'r cenadaethau** a ddewiswyd sy'n cyfuno gwybodaeth gyhoeddus a phreifat a chyfalaf gydag arbenigedd academiaidd i roi'r gorau i'r broses o gaffael, ariannu a rheoleiddio Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wrth gyflymu twf;
- **cymhwyso disgyblaethau rheoli prosiect go iawn** ar draws partneriaid cyflawni, gan fabwysiadu dull 'cyllid cyfunol', yn union fel y mae'r ddau Fargen Ddinesig yn gobeithio ei gyflawni yn Ne Cymru;
- **creu'r hyblygrwydd polisi a'r caniatâd llwybr carlam sydd ei angen i harneisio arloesedd**, er enghraifft drwy ehangu defnyddiau i gynnwys defnyddiau cyflogaeth ar dir porthladd, nid dim ond defnyddiau sy'n gysylltiedig â phorthladdoedd; ac i

- **creu mecanweithiau sy'n ein galluogi i wella a hunan-gywiro'n barhaus**, drwy adeiladu ar gyfleoedd, deall bygythiadau cystadleuol, a thrwy ddysgu o wledydd eraill.

Mae hyn yn ychwanegu at ddull newydd arloesol o gyflawni sy'n ailfeddwl yn sylfaenol sut yr ydym yn gweithio gyda'n gilydd.


CBI: 'rydym bellach wedi cyrraedd man newid, yn seiliedig ar ein hymrwymiad o'r newydd i dargedau sero-net, sy'n gofyn am gyfradd metabolig gwbl wahanol o wneud penderfyniadau economaidd, deinamiaeth a chydweithio'

Tony Danker, Cyfarwyddwr Cyffredinol y CBI



Llwyddiant Cymru yn y dyfodol

Erbyn 2030, mae porthladdoedd De Cymru wedi trosi eu rôl ganolog yn y chwyldro diwydiannol cyntaf yn rôl yn chwyldroi datgarboneiddio a digideiddio'r dyfodol. Mae'r rôl drawsnewidiol honno'n ganlyniad i berthynas newydd rhwng porthladdoedd De Cymru, ein cwsmeriaid, buddsoddwyr, y byd academaidd a'r sector cyhoeddus, yn seiliedig ar rannu gwybodaeth, risg a gwobrwyo. Mae'r porthladdoedd wedi helpu i roi Cymru ar lwybr newydd, ac mae'r canlyniad yn llwyddiant amlwg: awydd brwd am arloesi cymdeithasol ac economaidd pellach, ôl troed carbon wedi'i leihau'n sylweddol, a miloedd o swyddi cynhyrchiant uchel, sgiliau uchel a chystadleuol yn fyd-eang i Gymru.





www.abports.co.uk

©2021 ABP

211110